


Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Rachael's Playhouse

Rhyddhau dysgwyr bach: Stori lwyddiant

## Cefndir

Datblygodd gwasanaeth Rachael's Playhouse o fod yn wasanaeth gwarchod plant i fod yn Feithrinfa Gofal Dydd Llawn yn 2019, sy'n gofalu am 30 o blant rhwng 6 mis a 4 oed. Mae'r gwasanaeth wedi trawsnewid ei ddull gweithredu drwy roi cyfleoedd i'r plant lywio eu taith ddysgu eu hunain, ac mae'r canlyniadau yn rhyfeddol.

## Beth sydd wedi newid?

Mae Rachael's Playhouse yn caniatáu i chwilfrydedd y plant lywio'r addysg. Mae'r feithrinfa hon wedi trawsnewid gofal y blynyddoedd cynnar drwy wneud y canlynol:

- y **chwyldro gardd** - daeth y plant yn arddwyr bach, gan ddylunio a chreu eu hardal wyrdd eu hunain gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu. Gofynnwyd i'r rhieni gymryd rhan hefyd, gan ymuno mewn sesiynau garddio ac atgyfnerthu'r cyswllt rhwng y cartref a'r feithrinfa.
- **asesiad craff sy'n gweithio** - gan ddefnyddio adnoddau fel 'Cylchoedd cynllunio yn y fan a'r lle' a phroffiliau un dudalen tymhorol, roedd y staff yn nodi cynnydd y plant yn naturiol, heb amharu ar eu darganfyddiadau.
- **magic ar waith - 'y rhaeadr rhyfeddol'** datblygodd gweithgaredd syml yn chwarae gyda dŵr yn ymchwiliad cyffrous i Niagara Falls! Creodd y plant eu rhaeadr eu hunain, gan arbrofi â gwyntyllau, gan ddatblygu eu chwilfrydedd gartref hefyd wrth gyflawni tasgau arsylwi arbennig.

Y canlyniad? Plant hyderus sy'n canolbwyntio ac yn ffynnu mewn lleoliad lle mae dysgu yn teimlo fel chwarae.

## Effaith...

- Prosesau asesu ac olrhain gwell a gafodd eu dathlu yn ystod arolygiadau diweddar
- Rhoi prosesau ar gyfer gwaith cynllunio ymatebol yn seiliedig ar ddiddordebau'r plant ar waith yn llwyddiannus
- Nodi anghenion datblygiadol yn gynnar ac ymyrryd yn gynnar
- Gwella sgiliau tîm drwy raglen brentisiaeth a chynllun mentora
- Profiadau cyfoethog sy'n cefnogi sgiliau trawsgwricwlaidd a dibenion y cwricwlwm

“ *Rydyn ni'n meithrin y genhedlaeth nesaf o ddysgwyr chwilfrydig a hyderus.”*

*"Pan ofynnodd plentyn pam ei bod hi'n bwrw glaw, aethom ati i greu cymylau storm, i archwilio gwyddor y tywydd, a hyd yn oed i greu offerynnau cerdd gan ddefnyddio diferion glaw!* ”